

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

Chwiliad testun rhydd

English

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Linell Amser

English

Hafan

Pori

Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

RANDALL, HENRY JOHN, (HARRY; 1877 - 1964), cyfreithiwr a hanesydd

**Enw:** Henry John Randall  
**Dyddiad geni:** 1877  
**Dyddiad marw:** 1964  
**Priod:** Olga Ruth Randall (née Brewis)  
**Rhiant:** Hannah Randall (née Johnston)  
**Rhiant:** William Richard Randall  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** cyfreithiwr a hanesydd  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Cyfraith  
**Awdur:** H. Morrey Salmon

Ganwyd 13 Rhagfyr 1877, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Morgannwg, yn fab i William Richard Randall, cyfreithiwr yn y dref honno, a'i wraig Hannah (ganwyd Johnston). Addysgwyd ef yn Bradfield a daliai radd LL.B. (Llund.). Dilynodd alwedigaeth ei dad, derbyniwyd ef yn gyfreithiwr yn 1900, ac ymddeolodd o'i bractis yn 1962. Ef oedd ysgrifennydd cymdeithas cyfreithwyr Pen-y-bont a'r cylch o 1911 i 1921, a bu'n llywydd arni yn 1928 ac yn 1960. Nid yn ei alwedigaeth yn unig y bu'n nodedig; yr oedd yn ŵr o ddiddordebau eang iawn, yn enwedig ym maes hanes lleol Bro Morgannwg, lle y treuliodd ei oes yn gyfan. Fel aelod o Gymdeithas Hynafiaethau Cymru bu'n llywydd yn 1928, ac yn drysorydd mygedol o 1936 i 1951; cynrychiolodd hi ar Fwrdd y Gwybodau Celtaidd am 22 fl. Bu'n aelod o Fwrdd Henebion Cymru hyd 1959, yn gyd-olygydd y South Wales Record Society o 1929; F.S.A. ac aelod o'i chyngor yn 1949, a llywydd Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd, 1946-47. Yr oedd yn aelod o'r Athenaeum. Enghraifft arall o'i ymwylsbod â chyfrifoldeb i gymdeithas oedd iddo fod yn swyddog yn y Gatrawd Gymreig yn y Lluoedd Gwirfoddol a Thiriogaethol o 1895 i 1918. Ymhlith nifer o ysgrifau ar faterion cyfreithiol o'i law y mae'n werth nodi ' Law and geography ' (*Evolution of law*, Ill, 1918) a ' Beginnings of English constitutional theory (*Wigmore celebration legal essays*, 1919). Daeth y llyfr cyntaf a gyhoeddodd - *History in the open air* - allan yn 1936, a'i ddilyn yn 1944 gan *The creative centuries*. Ato ef y troes Cymdeithas Hynafiaethau Cymru am grynodeb awdurdodol o hanes Cymru Rufeinig yn ei chyfrol i ddathlu canmlwyddiant *Archæologia Cambrensis* yn 1946, a chyflenwodd ei bennod werthfawr ar y cyfnod Rhufeinig y gofyn i'r ymylon. Parhaodd i roi ar gof a chadw gynnyrch ei ddiddordeb dwfn yn hanes ei sir enedigol gyda *Bridgend: the story of a market town* (1955), a *The Vale of Glamorgan, studies in landscape and history* (1961).

Bu ganddo berthynas glòs ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru am yn agos i 40 mlynedd, daeth yn aelod o'i phwyllgor celfyddyd ac archaeoleg yn 1925, yn aelod o'r llys yn 1937, ac o'r cyngor yn 1938. Ef oedd trysorydd yr Amgueddfa o 1952 i 1962, ac yn y cyfnod hwnnw y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf, efallai, drwy sefydlu ' Cyfeillion Amgueddfa Genedlaethol Cymru ', corff y bu ef yn gadeirydd iddo o 1954 i 1964.

Cydnabu Prifysgol Cymru yn 1963 ei wasanaeth i'w sir a'i wlad drwy ei anrhydeddu â gradd LL.D.

Priododd yn 1916, ag Olga Ruth Brewis. Ni bu iddynt blant. Bu farw 4 Tachwedd 1964 yn ei gartref, ' Erw Graig ', Merthyr Mawr, Pen-y-bont, a chynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo yn eglwys S. Mair, Nolton, Pen-y-bont, cyn ei amlosgi, ar Dachwedd 9.

Awdur

Colonel H. Morrey Salmon, (1891 - 1985)

Ffynonellau

- The Times*, 9 Tachwedd 1964
- Archaeologia Cambrensis*, 1964
- Adroddiad Blynyddol Amgueddfa Genedlaethol Cymru*, 1964-5, t.11
- 10fed adroddiad blynyddol Cyfeillion AGC
- Who was who?*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 11960822

Wikidata: Q28360720

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF

Argraffu

Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Erwch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA

Salmon, H. M., (1997). RANDALL, HENRY JOHN, (HARRY; 1877 - 1964), cyfreithiwr a hanesydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-RAND-JOH-1877>

Preifatrwydd a Chwciis  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nodiwr gan:  
Llywodraeth Cymru  
Supported by  
Welsh Government